
**Rhif: WG26943**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teithio gan ddysgwyr: Gwneud Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd

www.gov.wales

Dyma ddogfen **hawdd i'w ddarllen** gan Lywodraeth Cymru



**Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2015**

**Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Chwefror 2016**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

**Y Cod Teithio**

**Y Cod Teithio yw'r rheolau sy'n dweud sut ddylech chi ymddwyn wrth deithio i'r ysgol.**

Y Cod Teithio yw'r hyn ddylech chi ei wneud wrth deithio.

Mae'r Cod Teithio yn ceisio gwneud yn siŵr eich bod yn teithio yn ddiogel.

Mae'r Cod Teithio yn dweud wrthych sut i ymddwyn wrth deithio ar fws neu drên neu wrth gerdded i'r ysgol.

Mae'r rheolau hyn ar gyfer Cymru gyfan.



Dyma'r rheolau y mae'n rhaid ichi eu dilyn a'ch hawliau wrth deithio:

| Eich cyfrifoldeb | Eich diogelwch | Eich hawliau |
|---|---|---|
| Parchu eraill gan gynnwys disgyblion eraill, gyrwyr a phobl eraill | Ymddwyn yn dda wrth deithio | Bod yn ddiogel wrth deithio |
| Parchu cerbydau ac eiddo | Dilyn cyfarwyddiadau gyrwyr wrth deithio | Cael eich trin yn deg gyda pharch |
| Bod yn gwrtais bob tro | Croesi'r ffordd yn ddiogel ac yn gyfrifol bob tro | Dweud os oes rhywun yn achosi problemau ichi |
| Peidio taflu sbwriel | Teithio ar lwybr diogel bob tro | Neb yn eich bwlio neu yn bod yn gas |
| Peidio torri'r gyfraith | | |

- Mae rhai pobl wedi dweud wrthym nad yw'r Cod Teithio yn gweithio.

**Mae ysgolion ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn teimlo bod y Cod Teithio yn bwysig iawn.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi siarad gyda plant a phobl ifanc i glywed pa mor dda, yn eu barn nhw, y mae’r Cod Teithio yn gweithio.

Roedd rhai pethau gafodd eu dweud yn dangos nad yw’r Cod Teithio yn gweithio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- bod Bwlis yn gallu gwneud teithio yn fwy peryglus a gwneud pobl yn anhapus.
- nad yw’r gosb am fwlio ar y bws ysgol yn ddigon llym.
- bode angen trefnu ffyrdd gwell o gofnodi problemau ar y daith rhwng y cartref a’r ysgol.
- bod angen mwy o hyfforddiant ar yrwyr i wybod sut i ymddwyn yn well tuag at ddysgwyr.

Dywedodd pobl hefyd:

- y dylai plant a phobl ifanc sy’n ymddwyn yn dda gael eu gwobrwyo
- y dylai rhieni/gofalwyr ddweud wrth eu plant sut i ymddwyn yn dda ar y ffordd i’r ysgol
- y gallai rhai bysiau fod yn fwy cyfforddus ac y dylai dysgwyr gael bwyta ac yfed ar y bws.




**Rydym am:**

- wneud rheolau mwy llym i ddelio gyda bwlis wrth deithio i’r ysgol
- gwneud y daith yn fwy cyfforddus ar y bws a rhoi hawl i ddysgwyr fwyta ac yfed
- trefnu contractau i awdurdodau lleol, ysgolion, cwmnïau bysiau a dysgwyr eu llofnodi, sy’n nodi sut y byddan nhw’n ymddwyn yn ystod y daith rhwng y cartref a’r ysgol
- rhoi’r cyfrifoldeb i blant hŷn a phobl ifanc edrych ar ôl dysgwyr ar y bws – a’u galw yn ‘swyddogion bws’. Byddai’r swyddogion yn gwneud yn siŵr nad oedd dysgwyr yn cael eu bwlio
- datblygu ffyrdd i rieni/gofalwyr a dysgwyr gofnodi problemau am sut y mae pawb yn ymddwyn
- trefnu hyfforddiant i yrwyr bysiau ysgol fel eu bod nhw’n gwybod sut i ymddwyn gyda dysgwyr
- i ysgolion wobrwyo dysgwyr sy’n ymddwyn yn dda ar y ffordd yn ôl ac ymlaen i’r ysgol.

| |
|---|
| Cytundeb rhwng gwahanol bobl yw contract sy’n nodi eu bod yn mynd i wneud rhai pethau. |

- **Mae angen inni wneud Cod Teithio newydd.**




- **Rydyn ni am i chi helpu gyda hwn.**

